

Defnyddiwch y rhain pryd bynnag yr ydych yn teimlo y gallwch. Maen nhw wedi cael eu darparu ar gyfer defnydd unigol neu mewn grŵp:

Dduw byw,  
rwyf yn cerdded gyda ni  
ac yn siarad gyda ni trwy'r Ysgrythurau.  
Mae dy Fab, Iesu Grist, yn gwrandao ar ein gobeithion a'n hofnau  
ac yn dangos i ni sut i fyw, gyda ac i'n gilydd.  
Anfon yr Ysbryd Glân atom i agor ein calonnau a'n meddyliau  
er mwyn i ni fod yn dystion i ti trwy'r byd.  
*Amen*

*Gwersigl.* Dy air yw ein llwybr a'th wirionedd yw ein goleuni.  
*Ateb.* Y dydd hwn a phob dydd arall.

Mair y Cyhydedd *Gweddïa drosom*  
Sant Mathew *Gweddïa drosom*  
Sant Jerôm *Gweddïa drosom*

### **Gweddi Hirach i'r Duw sy'n Siarad**

Greawdwr a Ffynhonnell pob peth, siaradaist ti â Moses wrth alw dy bobl i mewn i fywyd.  
Gofynnodd am dy enw datgelaist tithau dy ddirgelwch.  
"Yr wyf yr hyn ydwyf, yr hwn a fyddaf, ymhle y byddaf". Dy fywyd dwyfol, y tu hwnt i'n delweddau  
annigonol, y tu hwnt i'n hymdrechion bregus i wybod a rheoli. Ac yn raddol, trwy dy broffwydi, agoraist  
ein meddyliau a'n calonnau i fawredd dirgelwch dy drugaredd creadigol.  
Y Gair a wnaethpwyd yn Gnawd, deuaist ti i'n plith i agor ffordd a bywyd sy'n ffyddlon i'th ddirgelwch  
ac yn ffyddlon i'n dyhead; Gair sy'n siarad yn ein calonnau a thrwy eangder dy fydysawd.  
Ysbryd Sanctaidd, o'r Sulgwyn cyntaf rwyf ti wedi ein galluogi ni i glywed y Gair yn ein gwirionedd ni ein  
hunain ac ymateb iddo ymysg cyfeillion o bob hil ac iaith. Dyro i ni yn awr ddychwelyd at y gair dwyfol  
yn y Greadigaeth, y Gair a ymgawdolodd yn Iesu, y Gair hwnnw sy'n siarad ac yn cael ei gofnodi yn yr  
Ysgrythurau Sanctaidd.  
Cyffwrdd â'n meddyliau a'n calonnau heddiw wrth i ni ddarllen ar ein pen ein hunain, wrth i ni  
gyhoeddi'r litwrgi, wrth i ni astudio gyda'n gilydd ac, wedi'n hysbrydoli o'r newydd, cynorthwya ni i  
ddod y Gair hwnnw sy'n chwilio am y ffordd, y gwirionedd a'r bywyd.  
*Amen.*

David McLoughlin

### **Gweddi Pererin am y Flwyddyn**

Dduw Bererin,  
rwyf yn cerdded gyda ni  
ac yn siarad gyda ni trwy'r Ysgrythurau:  
Yn neges y proffwydi,  
caneuon Dafydd  
a gweledigaeth Paul.  
Mae dy Fab, Iesu Grist, yn gwrandao ar ein gobeithion a'n hofnau  
ac yn dangos i ni sut i fyw:  
yn ein cariad at ein cymdogion,  
yn ein hawydd am gyfiawnder,  
ac yn ein marw a'n codi pob dydd.  
Anfon yr Ysbryd Glân atom i agor ein calonnau a'n meddyliau  
er mwyn i ni fod yn dystion i ti trwy'r byd:

yn ein gwarchodaeth o'r bregus,  
yn ein geiriau a'n gweithredoedd  
ac yn ein cymundod â'r ddaear.

*Amen*

*Gwersigl.* Dy air yw ein llwybr a'th wirionedd yw ein goleuni.

*Ateb.* Y dydd hwn a phob dydd.

Mair y Cyhydedd *Gweddïa drosom*

Sant Mathew *Gweddïa drosom*

Sant Jerôm *Gweddïa drosom*

Arglwydd Atgyfodedig,

Dechreuodd dy ddisgyblion sylweddoli dy bresenoldeb wrth i ti egluro'r Ysgrythurau wrth gerdded  
gyda hwy ar y ffordd i Emaus.

Wrth i ninnau astudio'r Ysgrythurau heddiw, boed i'n calonnau ni hefyd fod ar dân,  
wedi'u cynnau gan yr Ysbryd, gyda chariad Duw, ac yn hyfrydwch dy ddysgeidiaeth,  
fel y gallwn ni weld gyda'th lygaid di, iachau gyda'th dwylo di, cerdded yn dy ffyrdd di a charu gyda'th  
galon di

*Amen*

Y Tad John Deehan